Arweiniad ychwanegol ar gyfer arolygu dwyieithrwydd mewn sefydliadau addysg bellach

Â beth y mae a wnelo hyn?

I roi mwy o arweiniad i arolygwyr ar sut i arolygu dwyieithrwydd mewn sefydliadau addysg bellach. Dylai arolygwyr ddefnyddio'r arweiniad hwn ochr yn ochr â'r Fframwaith Arolygu Cyffredin a'r Arweiniad ar Arolygu Addysg Bellach. Dylid defnyddio'r canllawiau hyn wrth arolygu pob sefydliad addysg bellach, beth bynnag fo'u natur ieithyddol.

Ar gyfer pwy mae hwn?

Pob aelod o dimau arolygu addysg bellach.

Pryd dylid cyflwyno'r arweiniad?

I'w roi ar waith ar unwaith

Dyddiad cyflwyno: Chwefror 2007

Cyflwyniad

Nod y ddogfen hon yw rhoi arweiniad ar arolygu dwyieithrwydd. Yn y cyd-destun hwn, mae dwyieithrwydd yn ymwneud â Chymraeg a Saesneg.

Dylid defnyddio'r canllawiau hyn ar y cyd â'r Fframwaith Arolygu Cyffredin ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (FfAC) a'r 'Arweiniad ar Arolygu Addysg Bellach'.

Cefndir

Nodau Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â dwyieithrwydd

Mynegodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei hymrwymiad i'r iaith Gymraeg a dwyieithrwydd yn ei chynllun strategol cyntaf yn 2000. Erbyn 2010:

> 'Dylai cyfran y boblogaeth gyfan sy'n gallu siarad Cymraeg fod wedi tyfu.'

Yn ei hadolygiad polisi o'r iaith Gymraeg 'Ein Hiaith: Ei Dyfodol' ailddatgenir yr ymrwymiad hwn gan y datganiad canlynol, sy'n datgan bod Llywodraeth Cynulliad Cymru:

- 'yn cadarnhau ei chred bod yr iaith Gymraeg yn perthyn i holl bobl Cymru, boed nhw'n siarad Cymraeg ai peidio, a'i bod wedi ymrwymo i gydweithredu â'r sefydliadau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i greu cymaint o gyfleoedd â phosibl i bobl ym mhob rhan o Gymru gymryd rhan yn y diwylliant dwyieithog a'r bywyd cyhoeddus yng Nghymru'.

Mae ‘Iaith Pawb’ (Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog) yn nodi’r canlynol yn darged allweddol:

- ‘Erbyn 2011, bydd canran poblogaeth Cymru sy’n gallu siarad Cymraeg wedi cynyddu 5 y cant o’r ffigur a amlygir yng nghyfrifiad 2001.’

Mae ‘Iaith Pawb’ hefyd yn nodi bod gan addysg a hyfforddiant rôl hanfodol o ran cefnogi’r targed hwn.

Ffurf a chynnwys y canllawiau

Mae’r arweiniad yn seiliedig ar y saith cwestiwn allweddol yn Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn. Maent fel a ganlyn:

Safonau	
Cwestiwn allweddol 1	Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?
Ansawdd addysg a hyfforddiant	
Cwestiwn allweddol 2	Pa mor effeithiol yw’r addysgu, yr hyfforddi a’r asesu?
Cwestiwn allweddol 3	Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a’r gymuned ehangach?
Cwestiwn allweddol 4	Pa mor dda yw’r gofal, y cyfarwyddyd a’r gefnogaeth i ddysgwyr?
Arweinyddiaeth a rheolaeth	
Cwestiwn allweddol 5	Pa mor effeithiol yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth strategol?
Cwestiwn allweddol 6	Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?
Cwestiwn allweddol 7	Pa mor effeithlon y mae’r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

Mae’r arweiniad hwn yn ymdrin â phob un o’r saith cwestiwn allweddol yn eu tro.

Cyfrifoldebau arolygu

Mae’n hanfodol bod pob aelod o’r tîm arolygu yn defnyddio’r arweiniad hwn ac yn cyfrannu tystiolaeth a barn ar ddwyieithrwydd, nid yn unig yr arolygydd sy’n gyfrifol am arolygu Cymraeg fel pwnc. Bydd gan gyfarfodydd y tîm arolygu ran allweddol o ran llunio barnau cytûn cyffredinol.

Dylai arolygwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl allu tynnu sylw’r tîm at unrhyw ddefnydd o’r Gymraeg fel ffordd o addysgu neu fel iaith achlysurol. Mewn achosion o’r fath, gellir ymgynghori ag aelod arall o’r tîm, fel yr arolygydd sy’n gyfrifol am gydlynu

dwyieithrwydd (os yw ar gael), neu ofyn am ail farn, pan nad yw arolygwyr yn gwbl gymwys yn y Gymraeg i lunio barn.

Dyfarnu graddau ac adrodd

Dylai'r adroddiad arolygu gynnwys barnau arfarnol ar y canlynol:

- **1.3** medrau allweddol dysgwyr gan gynnwys eu cymhwysedd dwyieithog (**cwestiwn allweddol 1**);
- **2.7** y graddau y mae addysgu a hyfforddi yn bodloni anghenion iaith dysgwyr gan gynnwys darparu mynediad at addysgu a dysgu dwyieithog (**cwestiwn allweddol 2**);
- **3.9** y graddau y mae profiadau dysgu yn hyrwyddo medrau dwyieithog disgyblion ac yn adlewyrchu ieithoedd a diwylliant Cymru (**cwestiwn allweddol 3**); ac
- mewn perthynas â **chwestiynau allweddol 4, 5, 6, a 7** bydd eich arfarniadau ynghylch dwyieithrwydd yn cyfrannu at y radd gyffredinol ar gyfer pob un o'r cwestiynau allweddol hyn. Fodd bynnag, dylai'r adrannau hyn nodi unrhyw nodweddion da neu ddiffygion arwyddocaol.

Bydd angen i chi gynnwys arfarniadau cyffredinol yn adran grynodeb yr adroddiad. Dylai unrhyw ddiffygion sydd wedi'u cynnwys yn y crynodeb hefyd ymddangos yn rhestr o argymhellion yr adroddiad.

Gwlad ddwyieithog yw Cymru. Mae cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a chynyddu nifer y bobl sy'n defnyddio'r iaith Gymraeg yn eu bywyd bob dydd yn flaenoriaethau i'r llywodraeth. O ganlyniad, mae Cymraeg a dwyieithrwydd yn faterion pwysig ar gyfer timau arolygu.

Safonau

Cwestiwn allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

Mae'n hanfodol eich bod yn ystyried yr hyn sy'n rhesymol i'w ddisgwyl mewn perthynas â chefndir a chyd-destun ieithyddol ẏ ddarpariaeth yr ydych yn ei harolygu. Mae'n rhesymol disgwyl y bydd pob coleg yn ymwybodol o'u rôl mewn datblygu medrau dwyieithog dysgwyr.

Llwyddiant dysgwyr wrth gyrraedd nodau dysgu cytûn

Dylech ystyried y canlynol wrth lunio barn am y cynnydd a wna dysgwyr mewn perthynas â'u medrau dwyieithog:

- man cychwyn y dysgwyr;
- priodoldeb nodau a pholisïau'r sefydliad wrth ddatblygu dwyieithrwydd;
- cyd-destun ieithyddol y darparwr; a'r
- gwerth a ychwanegir gan y darparwr mewn perthynas â safonau dwyieithrwydd.

Lle cyflwynir darpariaeth yn gyfan gwbl yn Saesneg neu yn Saesneg yn bennaf a lle nad yw'r rhan fwyaf o'r dysgwyr yn siarad Cymraeg yn iaith gyntaf, dylech farnu pa ddefnydd a wna dysgwyr o'r Gymraeg yn oddefol (gwrando a gweld) ac yn weithredol (siarad).

Lle bo dysgwyr yn mynychu cyrsiau a gyflwynir yn ddwyieithog, dylech farnu pa mor dda y mae dysgwyr yn defnyddio'r ddwy iaith i ddatblygu eu dysgu.

Cynnydd dysgwyr wrth ddysgu

Bydd safon dwyieithrwydd dysgwyr yn gwella pan fyddant yn gallu defnyddio'r Gymraeg a Saesneg yn briodol mewn ystod gynyddol heriol o gyd-destunau. Mae hyn yn wir beth bynnag fo gallu'r dysgwr yn y Gymraeg.

Dylai barnau am gynnydd fod yn seiliedig ar dystiolaeth am y pellter a deithir gan sampl gynrychioliadol o ddysgwyr.

Datblygiad medrau personol, cymdeithasol a dysgu dysgwyr

Mae agwedd dysgwyr tuag at yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg yn ffactor pwysig wrth ddatblygu dwyieithrwydd. Dylech farnu a yw dysgwyr yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at y ddwy iaith a ph'un a yw dysgwyr yn ymwybodol o fanteision dwyieithrwydd o ran:

- ymestyn medrau iaith ar gyfer y gweithle;
- ehangu eu gorwelion a chyfoethogi eu profiadau o fywyd; a
- deall treftadaeth ddwyieithog Cymru.

Pan fo cyfleoedd ar gael i ddysgwyr ddefnyddio'u medrau dwyieithog, dylech archwilio p'un a yw dysgwyr:

- yn gwneud y defnydd gorau o'r cyfleoedd hyn; ac
- yn dangos parodrwydd i ddefnyddio'u medrau dwyieithog a dangos ymrwymiad i'w gwella.

Dylai dysgwyr fod yn ymwybodol o natur ieithyddol eu cymuned leol, yr ardal gyfan a'r gymuned ehangach yng Nghymru.

Ansawdd addysg a hyfforddiant

Cwestiwn allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

Pa mor dda y mae'r addysgu a'r hyfforddiant yn bodloni anghenion y dysgwyr a gofynion y cwricwlwm neu'r cwrs?

Gall amcanion a nodau gwahanol ddarparwyr addysg bellach ar gyfer hyrwyddo dwyieithrwydd amrywio'n fawr, yn ôl cefndir a natur ieithyddol y gymuned leol neu'r ardal y maent yn ei gwasanaethu. Dylech ystyried yr agweddau hyn wrth farnu safonau dwyieithrwydd ac wrth ystyried cyd-destun y ddarpariaeth.

A yw dulliau addysgu yn effeithiol?

Bydd angen i chi arfarnu:

- a yw'r gwaith yn ddigon heriol mewn perthynas â chymhwysedd ieithyddol dysgwyr a'u cyflawniad blaenorol;
- a yw tiwtoriaid yn defnyddio ystod o ddulliau addysgu yn effeithiol;
- a yw tiwtoriaid yn cefnogi dysgwyr i ddefnyddio'u hiaith ddewisol;
- a yw tiwtoriaid yn darparu model iaith dda ar gyfer dysgwyr, trwy siarad yn glir ac yn gywir yn y cywair priodol a thrwy ddefnyddio terminoleg briodol;
- a yw staff ychwanegol a gwirfoddolwyr yn cael eu defnyddio yn effeithiol i wneud y gorau o ddatblygiad iaith dysgwyr; ac
- a yw dysgwyr yn deall yr hyn a ddisgwylir ganddynt, er enghraifft, pa iaith y dylent ei defnyddio wrth ryngweithio mewn grwpiau bach.

Nid yw cyfarch dysgwyr mewn un iaith ac ailadrodd popeth air am air yn yr iaith arall yn ffordd effeithiol o ddatblygu dwyieithrwydd dysgwyr.

Pa bynnag fath o ddwyieithrwydd a gynigir mewn darparwyr gwahanol, dylech bob amser ystyried a yw tiwtoriaid yn defnyddio:

- cywair iaith priodol;
- iaith glir a chywir; a
- therminoleg briodol.

Pa mor drylwyr yw'r asesu a'r defnydd a wneir ohono wrth gynllunio a gwella dysgu

Dylech arfarnu a yw tiwtoriaid:

- yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr gael eu hasesu trwy gyfrwng y Gymraeg neu yn ddwyieithog;
- yn rhoi sylw i ansawdd a mynegiant iaith dysgwyr yn y ddwy iaith wrth asesu gwaith;
- yn gwneud defnydd effeithiol o wybodaeth asesu i nodi meysydd i'w datblygu ymhellach, gan gynnwys dwyieithrwydd.

Dylai arolygwyr ystyried a yw cyflawniad dysgwyr yn cael ei rwystro gan ddiffyg gwasanaethau, adnoddau neu ddealltwriaeth o'u hanghenion ieithyddol.

Dylech ddisgwyl bod:

- gan ddarparwyr ddarlun clir o fedrau iaith eu dysgwyr a'u staff a'u hiaith ddewisol;
- tiwtoriaid yn gwybod faint o ddysgwyr sy'n manteisio ar y cyfleoedd hyn;
- sesiynau yn cael eu cynllunio'n dda a'u bod yn sicrhau bod dysgwyr mewn dosbarthiadau dwyieithog yn cael cyfleoedd da i ddatblygu eu medrau llythrennedd deuol; a bod
- cyfleoedd da a phriodol i ddysgwyr gael eu hasesu a'u hachredu trwy gyfrwng y Gymraeg neu yn ddwyieithog.

Cwestiwn allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

Y graddau y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr

Pwysig – Cyn arfarnu'r ffordd y mae darparwr yn cynllunio ar gyfer datblygu dwyieithrwydd, mae'n hanfodol i chi fod yn gyfarwydd â pholisi iaith y darparwr. Dylech ofyn i'r darparwr roi ei Gynllun Iaith Gymraeg i chi ar ddechrau'r arolygiad.

Dylech ystyried a oes gan y darparwr gynlluniau da a phenodol ar waith i ddatblygu dwyieithrwydd dysgwyr mewn ystod o gyd-destunau ac ar lefel briodol. Dylai hyn fod yn ehangach na'r ddarpariaeth pwnc Cymraeg sydd ar gael. Dylech hefyd farnu pa mor dda y mae darparwyr yn gweithio gyda'i gilydd i gynllunio cwricwlwm sy'n ymatebol i anghenion dwyieithog dysgwyr a'r gymuned.

Lle bo'n berthnasol, a oes dilyniant a pharhad ym mhrofiadau dysgwyr o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg?

Dylech farnu a oes parhad a dilyniant yn y cyfleoedd i ddysgwyr astudio pynciau a chyrsiau yn Gymraeg neu yn ddwyieithog.

Lle bo dysgwyr wedi dilyn un cyfnod o gwrs trwy gyfrwng y Gymraeg neu yn ddwyieithog, dylech farnu:

- a oes mwy o gyrsiau ar gael drwy'r un cyfrwng;
- a yw dysgwyr yn gallu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg neu yn ddwyieithog hyd at a chan gynnwys lefel tri; ac
- a yw dysgwyr sy'n astudio Cymraeg yn ail iaith yn cael cyfleoedd i ehangu eu medrau dwyieithog trwy gyrsiau sy'n cynnig dilyniant.

A yw'r darparwr yn darparu cyfleoedd digonol i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg ac eithrio mewn gwersi?

Mae i gyfleoedd rheolaidd i ddod i gyswllt â'r Gymraeg a'i defnyddio mewn ystod o gyd-destun ran allweddol mewn datblygu cymhwysedd a hyder dysgwyr yn y Gymraeg. I lawer o ddysgwyr, gall eu cyswllt â'r iaith Gymraeg fod wedi'i gyfyngu i'r ystafell ddosbarth. Dylech ystyried i ba raddau y mae darparwyr yn mynd i'r afael â'r broblem hon fel bod pob dysgwr yn elwa.
Ystyriwch pa mor dda y mae'r darparwr yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg trwy:

- ddefnyddio arwyddion ac arddangosiadau Cymraeg neu ddwyieithog;
- trefnu bod gwybodaeth ddwyieithog ar gael;
- staff yn defnyddio Cymraeg achlysurol mewn sefyllfaoedd anffurfiol;
- cael mynediad at ddeunyddiau Cymraeg neu ddwyieithog; a
- gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau cyfrwng Cymraeg fel Mentrau Iaith.

A oes partneriaethau effeithiol â darparwyr addysg eraill?

Dylech archwilio partneriaethau â darparwyr eraill o ran materion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg a dwyieithrwydd. Sut mae'r darparwr yn cysylltu â darparwyr eraill i ehangu cyfleoedd dysgwyr i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg neu yn ddwyieithog?

Y graddau y mae profiadau dysgu yn ymateb i anghenion cyflogwyr a'r gymuned ehangach

Dylech nodi a oes gan y darparwr ddarlun cymdeithasol-ieithyddol clir a chynhwysfawr o'r ardal y mae'n ei gwasanaethu?

Dylech arfarnu i ba raddau:

- y caiff anghenion ieithyddol y gymuned a chyflogwyr eu hystyried wrth gynllunio'r profiadau dysgu;
- y mae'r darparwr yn cyfrannu at wybodaeth a dealltwriaeth y dysgwr o nodweddion lleol ac ieithyddol Cymru;
- y mae'r darparwr yn cyfleu ei werthoedd ei hun o ddwyieithrwydd i bob un o'r rhanddeiliaid;
- y mae'r profiadau dysgu yn gwella cyfleoedd dysgwyr o ddod o hyd i gyflogaeth; ac
- y mae gan staff ymwybyddiaeth ddigonol o anghenion cyflogwyr lleol mewn perthynas â'r iaith Gymraeg a dwyieithrwydd.

Cwestiwn allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?

Ansawdd y gofal, y gefnogaeth a'r cyfarwyddyd i ddysgwyr

Dylech ystyried a yw dysgwyr yn gwybod pa gyfleoedd sydd ar gael iddynt ddysgu Cymraeg neu gael mynediad at addysg bellach trwy gyfrwng y Gymraeg neu yn ddwyieithog. Dylai hyn hefyd gynnwys gwybodaeth am ddysgu ar-lein, dysgu o bell a chyrsiau dysgu cymysg.

Lle bo'n berthnasol, dylech farnu i ba raddau, a pha mor dda y mae darparwyr yn rhoi cyfarwyddyd, gan gynnwys cyfarwyddyd ynghylch gyrfaoedd, trwy gyfrwng y Gymraeg neu yn ddwyieithog.

Ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol

Dylech farnu a oes gwasanaethau cymorth ar gael yn Gymraeg ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, lle bo'n briodol. Dylech hefyd ystyried a yw mynediad rhwydd at y gwasanaethau cymorth hyn yr un mor hawdd yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer cyfle cyfartal

Dylech ystyried i ba raddau y mae darparwyr yn sicrhau bod pob dysgwr, yn ddieithriad, yn cael yr un cyfleoedd, beth bynnag fo'r pwnc, i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg neu yn ddwyieithog.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

Cwestiwn allweddol 5: Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?

Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn rhoi cyfeiriad clir ac yn hyrwyddo safonau uchel

Dylech arfarnu:

- priodoldeb datganiad cenhadaeth ac amcanion strategol y darparwr o ran y Gymraeg a dwyieithrwydd;
- i ba raddau y maent yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol;
- ansawdd ac addasrwydd polisïau a dogfennau'r darparwr, gan gynnwys y Cynllun Iaith Gymraeg;
- pa mor dda y mae'r targedau a amlinellir yn y cynllun yn cael eu cyflawni;
- pa mor effeithiol y mae arweinwyr a rheolwyr yn rhannu'r genhadaeth a'r strategaeth ar gyfer dwyieithrwydd â'r holl staff; a
- pha mor ymwybodol yw staff o oblygiadau'r polisïau hynny.

Dylech hefyd ystyried i ba raddau y mae carfan y dysgwyr yn adlewyrchu'r gymuned leol o ran cyfran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg. Dylech ddefnyddio data cyfrifiad 2001 ar gyfer hyn.

A oes polisi clir a chynhwysfawr ar ddwyieithrwydd sy'n cael ei weithredu'n gyson ar draws y ddarpariaeth gyfan?

Dylai pob darparwr a'u staff yn fod yn ymwybodol o amcanion a disgwyliadau Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â dwyieithrwydd. Dylai fod gan bob darparwr dargedau clir mewn perthynas â'r Gymraeg a dwyieithrwydd sy'n ystyried polisi ac amcanion y Cynulliad. Wrth weithio mewn partneriaeth â darparwyr eraill, dylid ystyried rôl y coleg wrth rannu arfer dda a gosod safonau.

Pa mor dda y mae llywodraethwyr neu gyrff goruchwylio eraill yn cyflawni eu cyfrifoldebau?

Dylai llywodraethwyr neu gyrff goruchwylio gael polisi iaith Gymraeg y darparwr. Dylech farnu i ba raddau y mae'r cyrff hyn yn monitro ac yn arfarnu gweithredu polisi iaith y sefydliad.

Cwestiwn allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

Pa mor effeithiol y caiff perfformiad y darparwr ei fonitro a'i arfarnu?

Yng nghyd-destun dwyieithrwydd, dylech farnu:

- cwmpas ac effeithiolrwydd gweithdrefnau'r darparwr ar gyfer arfarnu safonau ac ansawdd mewn perthynas â dwyieithrwydd;
- ystod a natur y nodau ar gyfer gwella dwyieithrwydd;
- ansawdd datblygu cynllunio, gan gynnwys targedau ansoddol a meintiol ar gyfer gwella; a
- pha mor dda y caiff cynlluniau datblygu mewn perthynas â dwyieithrwydd eu gweithredu a'u harfarnu.

Dylech farnu a yw rheolwyr yn ymwybodol o'r cryfderau a'r gwendidau o ran darpariaeth a safonau dwyieithrwydd ar draws y cwricwlwm. Dylech ddisgwyl gweld cyfeiriadau eglur at hyn yn adroddiad hunanarfarnu'r darparwr.

Dylech hefyd archwilio a yw ansawdd yr arsylwadau ystafell ddosbarth yn gyfartal ar gyfer y rheiny sy'n gweithio yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ystyriwch a yw arsylwadau ystafell ddosbarth yn cael eu cynnal gan aelodau priodol o staff sydd â'r wybodaeth, y medrau a'r arbenigedd i roi adborth cywir ac adeiladol i'r tiwtor.

Pa mor effeithiol yw'r broses o gynllunio ar gyfer gwella?

A yw'r darparwr yn cynllunio ar gyfer gwella mewn perthynas â Chymraeg a dwyieithrwydd mewn modd priodol? Dylech ddisgwyl gweld cynlluniau cadarn ar gyfer gwella ar sail y materion a godwyd yn adrannau eraill yr arweiniad hwn. Dylech arfarnu a yw cynllunio datblygu yn ystyried blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

Mewn rhai meysydd, mae sefydlu neu ehangu cyfleoedd dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg neu yn ddwyieithog yn golygu mynd i'r afael ag anawsterau cyllidebol a staffio. Bydd angen i chi lunio barn ynghylch a yw cynlluniau datblygu yn dyrannu adnoddau digonol i gyflawni amcanion a nodi strategaethau clir. Gallai'r rhain gynnwys y canlynol:

- gweithio'n agos â darparwyr eraill trwy drefniadau consortiwm;
- rhoi hyfforddiant i diwtoriaid i'w galluogi hwy i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg neu yn ddwyieithog; a
- chyflwyno cyrsiau dysgu o bell.

Dylech ddisgwyl:

- bod materion ynghylch dwyieithrwydd yn cael lle amlwg mewn adroddiadau hunanasesu; a
- chynlluniau datblygu sy'n nodi strategaethau clir a manwl ar gyfer gwella cyfleoedd dwyieithog

Cwestiwn allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?

Digonolrwydd, addasrwydd a'r defnydd a wneir o staffio, adnoddau dysgu ac adeiladau

Dylech farnu:

- a oes digon o staff cymwys a phrofiadol i ddarparu darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog;
- a yw'r darparwr yn gwybod pa gyfran o staff sydd â medrau dwyieithog ac i ba raddau y maent yn gallu cyflwyno yn ddwyieithog;
- i ba raddau y mae cymorth arbenigol ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol ar gael yn Gymraeg, lle bo'n briodol;
- i ba raddau a pha mor effeithiol y rhoddir cymorth ac arweiniad o ansawdd da i staff gyflwyno'u darpariaeth yn ddwyieithog; ac
- a yw'r darparwr yn rhoi pwyslais priodol ar weithio mewn lleoliadau dwyieithog wrth gynnal gweithgareddau datblygu staff.

Lle bo anawsterau wrth recriwtio staff addas i gyflwyno'r ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg neu yn ddwyieithog, dylech ystyried a yw'r darparwr yn gwneud digon i oresgyn y problemau hyn. Er enghraifft, a yw'r darparwr yn gweithio mewn partneriaeth â darparwyr eraill (neu drwy drefniadau consortiwm) i oresgyn problemau gallu. Lle nad yw'r problemau hyn wedi cael eu goresgyn, a yw diffyg staff addas neu ddiffyg hyfforddiant mewn swydd yn rhwystro dewis dysgwyr neu a yw'n cael effaith niweidiol ar ystod ac ansawdd y profiadau a ddarperir?

Pa mor effeithiol y caiff adnoddau eu rheoli er mwyn sicrhau gwerth am arian?

Wrth lunio barn ynghylch gwerth am arian, dylech ystyried priodoldeb y cyllid a ddyrennir ar gyfer darpariaeth ddwyieithog a pha mor effeithiol y caiff adnoddau eu defnyddio. Dylai rheolwyr fod yn ymwybodol o alluoedd a chymwyseddau aelodau'r staff mewn perthynas ag addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg neu yn ddwyieithog. Dylent ddefnyddio'r wybodaeth hon wrth ddefnyddio a rheoli staff. Dylid costio a chynnwys camau i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion neu gyfyngiadau, mewn cynlluniau datblygu.

Dylech ddisgwyl bod:

- gan y darparwr ddigon o staff cymwys sy'n gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg neu yn ddwyieithog, a'u bod yn cael eu defnyddio yn briodol;
- digon o adnoddau i gefnogi datblygiad dwyieithog dysgwyr; a
- bod cynigion mewn cynlluniau datblygu wedi cael eu costio'n ofalus ac yn realistig.